**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-595
Ein cyf/Our ref RE/05082/14

William Powell AM
Chair Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

22 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch i chi am eich llythyr diweddar at y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, dyddiedig 30 Medi, ynghylch y ddeiseb oddi wrth David Hardwick. Yr wyf yn ymateb gan fod materion diogelwch bwyd o dan fy nghyfrifoldeb uniongyrchol i fel y Dirprwy Weinidog ar gyfer Ffermio a Bwyd.

Mae diogelu iechyd a lles pobl Cymru yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi yn y dyfodol ac yn hanfodol i greu dyfodol ar gyfer ein holl gymunedau.

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau diogelwch bwyd. Drwy *'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar Gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'*, ein bwriad yw gweithio'n agos â rhanddeiliaid diogelwch bwyd er mwyn sicrhau ymagwedd gyfannol at gynnal cynhyrchu bwyd yng Nghymru, gan ddiogelu defnyddwyr o ganlyniad. Bydd hyn yn rhan o waith Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a gaiff ei sefydlu'n fuan.

Mae'n amlwg na allwn weithredu ar ben ein hunain ar y materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bartner ac yn gyfrannwr i'r Rhaglen Diogelwch Bwyd Byd-eang; sef rhaglen aml-asiantaeth yn cydlynu ymchwil diogelwch bwyd ar draws Llywodraethau'r DU, cynghorau ymchwil y DU, a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg.

Gan fod Bwyd a Ffermio yn un o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, mae'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) fel y mae'n ymwneud â bwyd, yn gyson â *'Tuag at Dwf Cynaliadwy'*. Bydd cyllid CDG yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi cynhyrchu bwyd drwy'r Cynllun Buddsoddi Busnes Bwyd, y Cynllun Datblygu yn y Gadwyn Gyflenwi, a drwy ddarparu cyngor a throsglwyddo gwybodaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yr wyf yn hyderus felly ein bod ar hyn o bryd, mewn sefyllfa dda i ymdrin â heriau diogelwch bwyd a all godi yn y dyfodol.

Yn gywir,

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food